JONES, BENJAMIN (1756 - 1823), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Benjamin Jones
Dyddiad geni: 1756
Dyddiad marw: 1823
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd yn Trecyrnfawr, Llanwinio, Sir Gaerfyrddin, 29 Medi 1756. Eglwyswyr cefnog oedd ei deulu â'u bryd ar iddo gymryd urddau eglwysig. Addysgwyd ef i ddechrau gan glerigwr yn ysgol Llanddewi-efelffre, Sir Benfro. Daeth dan ddylanwad Richard Morgan, Henllan, a John Griffith, Glandwr, a wnaeth iddo droi at yr Annibynwyr; ymaelododd yn eglwys Henllan ac yno y dechreuodd bregethu yn 18 oed. Yn 1775 aeth i athrofa y Fenni; urddwyd ef yn 1779 yn weinidog eglwys Pencader. Yn 1784 symudodd i Fôn i ofalu am eglwysi Rhosymeirch a Chapel Mawr; yn 1789 aeth i Benlan, Pwllheli.

Bu ei weinidogaeth ym Môn yn achlysur i gychwyn amryw achosion megis y Talwrn, Amlwch, a Biwmares, ond wedi symud i Bwllheli nid ymddengys iddo ymddiddori cymaint mewn sefydlu achosion yn y wlad oddi amgylch. Cyfrifid ef yn ddiwinydd craff ac yn wr o gyngor gyda'r blaenaf ymhlith gweinidogion y Gogledd. Bu cysylltiad agos rhyngddo ef a'i deulu â 'Helynt Fawr' Llanuwchllyn yn adeg Michael Jones (gweler *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn*, pen. v). O dan ei weinidogaeth ef, ar Sul y Pasg 1796, yng nghapel Pendref, Llanfyllin, y dwysbigwyd Ann Griffiths, emynyddes Cymru.

Tua 1805, cyhoeddodd *Ffynhonnau Iachawdwriaeth* i ateb John Wesley yn ei draethawd ar etholedigaeth. Cyhoeddodd hefyd lyfryn galluog ar *Athrawiaeth y Drindod mewn Tair Pregeth* i wrthwynebu rhai o syniadau Peter Williams ar y *Beibl* ac yn enwedig ei ddaliadau Sabelaidd yn ei lyfr *Dirgelwch Duwioldeb*, 1792 (gweler *Cofiant J. Jones, Talsarn*, 302-3). Bu farw 17 Chwefror 1823 a chladdwyd ef ym mynwent Penlan, Pwllheli.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 169

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 101, 105, 112, 147, 176

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868), 302-3

Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880 (1898), 21-2

Darllen Pellach

T. Lewis, 'Cofiant Y Diweddar Barch. Benjamin Jones, Pwllheli, Swydd Gaerynarfon,' *Y Dysgedydd Crefyddol*, Cyf.V rhif.7, Gorffennaf 1826, tt.193-197

Erthygl Wicipedia: Benjamin Jones, Pwllheli

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 31863889

Wikidata: Q20732652

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu